# Cenn@d

GORFFENNAF 12 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 124


## Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 75 oed

Cefais fy ngeni yn y flwyddyn 1948, ac felly yr wyf yr un oed â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol! Pleser felly oedd cael cynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru mewn oedfa arbennig o ddiolchgarwch i ddathlu 75 mlynedd o'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru yn Eglwys yr Atgyfodiad, Trelái, Caerdydd, fore dydd Mawrth, 4 Gorffennaf. Yr oedd yn achlysur i alluogi'r gynulleidfa i fyfyrio a diolch am y nifer fawr o bobl sydd wedi cefnogi'r Gwasanaeth Iechyd poblogaidd dros dri chwarter canrif a'r rhai sy'n parhau i wneud hynny heddiw.

Cyfeiriodd Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, at 'eu hangerdd, eu hymroddiad a'u hymrwymiad diflino i'w swyddi – dyna yw hanfod ein Gwasanaeth Iechyd. Gwasanaeth sydd bob amser yno pan fydd ei angen arnom, ar yr adegau mwyaf dwys yn ein bywydau.'

Roedd y gynulleidfa yn cynrychioli'r amrywiaeth cyfoethog o bobl sy'n darparu'r Gwasanaeth Iechyd ledled Cymru, yn staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, ac yn cynnwys yn ogystal aelodau a chynrychiolwyr y Fforwm Cymunedau Ffydd.

Croesawyd y gynulleidfa i'r oedfa ddwyieithog gan y Canon Jan Gould, ficer yr eglwys. Cyflwynodd y Gwir Barchedig Mary Stallard, esgob Llandaf, anerchiad pwrpasol oedd yn ein hatgoffa o weledigaeth Aneurin Bevan, Aelod Seneddol Glyn Ebwy ar y pryd, a sefydlydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a pha mor bwysig yw i bawb ohonom sicrhau i'r dyfodol ei freuddwyd o ofal iechyd i bawb yn rhad ac am ddim. Eraill a gyfrannodd i'r oedfa oedd myfyrwyr o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Côr Adran Achosion Brys Ysbyty Treforys, ac aelodau o'r Fforwm Cymunedau Ffydd.

Darllenodd Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru, gerdd arbennig a ysgrifennodd wedi iddi glywed yn uniongyrchol brofiadau staff y Gwasanaeth Iechyd. Cyfieithwyd y gerdd 'The Unsung' gan Grug Muse, dan y teitl 'Y Di-glod'. Dyfynnaf ychydig linellau ohoni:

> Sut ydych chi'n consurio gwenau a llwyddiannau
> heb gwsg na sicrwydd? Meithrin ffydd o dryblith chwilfriw ...
> Cymeraf y pin, fy mhapur, y geiriau hyn i gyd.
> Ond alla i ddim addo cymeradwyaeth i chi,
> Am fod clapio'n awgrymu fod y gwaith ar ben.

Oedfa fendithiol ac effeithiol, a diolch am gael bod yn bresennol ar yr achlysur arbennig hwn.

*Bill Davies*






Daeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i fodolaeth ar 5 Gorffennaf 1948. Yn ystod y gwaith ailadeiladu ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ystyrid bod gwella gofal iechyd y genedl yn hollbwysig i'w hadferiad. Câi'r Gwasanaeth ei ariannu bron yn gyfan gwbl o drethiant canolog, ac roedd yr egwyddor fod y cyfoethog yn talu mwy na'r tlawd am fuddion tebyg yn cael ei hystyried yn rhan hanfodol o'r cynllun. Roedd pawb yn gymwys i gael gofal, hyd yn oed y rhai oedd yn byw yma dros dro neu'n ymweld â'r wlad. Gallai pobl gael eu hatgyfeirio i unrhyw ysbyty, yn lleol neu ymhellach i ffwrdd.

### Gweddi ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Dduw iachâd a thosturi,
diolchwn i Ti am y rhai aeth ati i sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol,
ac am bawb fu'n gweithio ynddo dros y 75 mlynedd a aeth heibio.

Diolchwn am ymroddiad pawb sy'n rhan o'r gwaith enfawr hwn heddiw:
y rhai sy'n defnyddio'u sgiliau a'u doniau
i wasanaethu a gofalu am gleifion a'u teuluoedd.

Diolch am bob un cyfraniad, gan feddygon a nyrsys,
gofalwyr, staff glanhau a darparwyr bwyd,
a'r llu o bobl eraill sy'n gofalu bod y gwaith yn mynd rhagddo.

Gofynnwn i ti ofalu amdanynt a'u cynnal ynghanol heriau a phwysau'r gwaith,
a gweddïwn am weld mwy o weithwyr yn ymuno â'r rhengoedd.

Dduw tragwyddol,
dyrchafwn ger dy fron
bawb o bob cenedl a chefndir
sy'n gweithio ar y rheng flaen ym maes gofal iechyd.

Rho ddoethineb ac amynedd iddynt yn eu gwaith.
Bydd yn nerth ac yn darian iddynt;
cynnal hwy bob amser, iddynt rannu dy gariad a'th dosturi di,
wrth iddynt roi ohonynt eu hunain wrth ofalu am eraill.
Amen.


Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Rhosllannerchrugog 2023
Tudalen 2

Cystadleuaeth Bêl-droed Cwpan CIC Gofalaeth Bro Nant Conwy
Tudalen 4

Teyrnged i John Rice Rowlands
Tudalen 5

# Undeb yr Annibywnyr Cymraeg, Rhosllannerchrugog 2023



Y Stiwt, Rhosllannerchrugog




Andrew Sully



Robin Samuel

Ar hyn o bryd rydym yn nhymor y cynadleddau enwadol blynyddol. Diolch i Mrs Bonni Davies am yr adroddiad cynhwysfawr o gynhadledd y Bedyddwyr a gyhoeddwyd yn rhifyn yr wythnos diwethaf o Cenn@d, a'r wythnos hon cawn adroddiad arall, y tro yma o Undeb yr Annibynwyr, a hynny gan y Parch. Alun Tudur. Yr wythnos nesaf edrychwn ymlaen am adroddiad o Gymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a hynny gan y Parch. Huw Powell-Davies.

Roedd naws adeiladol a chadarnhaol i Gyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a gynhaliwyd gan fwyaf yn y Stiwt, Rhosllannerchrugog, 28–30 Mehefin. Roeddem yno ar wahoddiad Cyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint, a'r pwyllgor trefnu o dan gadeiryddiaeth effeithiol y Parch. Trefor Jones-Morris. Mawr yw ein dyled i'r criw bach ac ymroddedig a wnaeth yn siŵr fod y croeso yn dwymgalon a'r holl drefniadau wedi mynd rhagddynt yn ddidramgwydd.

Bydd adroddiad am y prif ddigwyddiad a phenderfyniadau'r cyfarfodydd yn cael eu hadrodd yn *Y Tyst*. Gwyddom, fel Cristnogion yng Nghymru, fod heriau mawr yn ein hwynebu ar hyn o bryd yn ein bywyd eglwysig ac yn ein tystiolaeth dros yr Iesu. Ond yn nifer o'r cyfarfodydd eleni cyflwynwyd inni anogaethau i ddyfalbarhau a syniadau sut i ymateb i'r anffyddiaeth bresennol. Cofiwn yn feunyddiol mai ymwneud â gwaith yr Arglwydd yr ydym, nid ein gwaith ein hunain, a bydd ef yn cyflawni ei fwriadau, beth bynnag ddigwydd.

### Apêl Cymorth Cristnogol

Un digwyddiad pwysig i'r holl eglwysi oedd lansio Apêl Ffynhonnau Byw mewn cydweithrediad â Chymorth Cristnogol. Fel y gwyddoch, roedd y cydweithio hwn gyda Chymorth Cristnogol yn digwydd bob 5 mlynedd yn hanes yr Annibynwyr, ond oherwydd ein bod wedi cynnal Apêl Madagascar yn 2018 aeth 10 mlynedd heibio. Braf felly yw ailgydio yn y cydweithio.

Lansiwyd yr Apêl gan Robin Samuel ac A. Sully, Prif Weithredwr dros dro Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Y tro hwn rydym yn cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yn Colombia, De America, lle mae problemau cymdeithasol dybryd. Gwelsom fideo oedd yn cyflwyno'r prosiectau y byddwn yn eu cefnogi fel Annibynwyr. Bydd y fideo ar gael yn fuan i bawb ohonom ar wefan yr Undeb ynghyd ag adnoddau eraill sy'n cael eu eu paratoi, e.e. posteri, oedfaon a gwybodaeth.

Esboniodd Robin fod y teitl Ffynhonnau Byw yn tarddu o Lyfr y Proffwyd Eseia pennod 35, lle dywedir, 'Yna fe agorir llygaid y deillion a chlustiau'r byddariaid; fe lama'r cloff fel hydd, fe gân tafod y mudan; tyr dyfroedd allan yn yr anialwch, ac afonydd yn y diffeithwch; bydd y crastir yn llyn, a'r tir sych yn ffynhonnau byw; yn y tir garw, lle cyrcha'r siacal, bydd gweirglodd o gorsennau a brwyn' (Eseia 35:5–7).

Yma, mae'r proffwyd yn dweud nad oes lle i ddigalonni, oherwydd yn y dyfodol y bydd bendith ar bobl Dduw. Disgrifir y fendith yn nhermau iechyd, llewyrch ym myd natur, diogelwch a gorfoledd. Bydd yr anialwch yn blodeuo eto. Cymhwyswyd hyn i'r hyn y mae egwyddorion teyrnas Dduw yn eu gwneud o fewn cymdeithas lle mae anghyfiawnder yn teyrnasu. Cyfansoddwyd gweddi arbennig ar gyfer yr apêl gan R. Samuel, sy'n cynnwys y geiriau hyn.

> Dduw Cariad,
> Ym mhob cenhedlaeth
> Dangosaist dy hun fel un sy'n cofio'r
> Tlawd a'r newynog,
> Yn amddiffyn y bregus a'r gwan,
> Ac yn anrhydeddu'r rhai hynny sy'n 'neb'.
> Ac ym mhob oes gwahoddaist bobl i ymuno â thi
> Yn y gwaith o sicrhau cyfiawnder a heddwch,
> Urddas a chydraddoldeb i bawb.

### Rhagor o'r Undeb

Yn ystod tridiau'r Cyfarfodydd Blynyddol yn Rhosllannerchrugog roedd llu o ddigwyddiadau arwyddocaol a hynny'r tu allan i gwmpas y cyfarfodydd cyhoeddus niferus. Dyma bigion o'r hyn a ddigwyddodd.

(parhad ar y dudalen nesaf)

*Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Rhosllannerchrugog 2023*
*(parhad o dudalen 2)*



Geraint Rees



Meryl James a Beti Wyn James

### Trysoryddiaeth

Croesawyd Trysorydd newydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, sef Geraint Rees, Efailisaf. Dymunodd y Llywydd, sef y Parch. Beti Wyn James, yn dda iddo wrth ymgymryd â'r gwaith. Yn ystod y cyfarfodydd hefyd fe gyflwynwyd rhodd i fynegi ein gwerthfawrogiad mawr i Meryl James am ei holl waith fel trysorydd dros y blynyddoedd.



Owain Llŷr Evans

### Croeso

Fe groesawodd y Llywydd hefyd ddarpar lywydd yr Undeb a etholwyd yn ddiweddar, sef y Parch. Owain Llŷr Evans, Minny Street, Caerdydd. Llongyfarchwyd ef yn galonnog iawn ar gael ei ethol. Bydd y Parch. Owain Llŷr Evans yn ddarpar lywydd nawr am ddwy flynedd hyd nes y daw llywyddiaeth y Parch. Jeff Williams i ben yn 2025.



Jeff Williams yn arwyddo Beibl y Llywydd, gyda Beti Wyn James

### Llywyddiaeth

Ar ddiwedd y cyfarfodydd fe drosglwyddwyd Beibl y Llywydd gan y Parch. Beti Wyn James i'r Parch. Jeff Williams, y Llywydd newydd. Diolchwn yn fawr i Beti Wyn am ei holl waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf a dymunwn yn dda i Jeff wrth iddo ymgymryd â chyfrifoldebau'r swydd.

*Alun Tudur*

# 'Dathlu'r Sulgwyn' yng Nghapel Shiloh, Llanbedr Pont Steffan

Cafwyd gwledd o ganu yn 'Dathlu'r Sulgwyn' nos Lun, 22 Mai. Trefnwyd y noson gan Gerald Morgan, Tregaron, gyda chymorth aelodau Capel Shiloh, a gwnaed casgliad anrhydeddus o dros £700 i gefnogi Hosbis Plant Tŷ Hafan. Arweinydd y noson oedd y Canon Aled Williams, Llanllwni, gydag Eurwen Davies, Llanbed, yn cyfeilio. Y Llywydd oedd Twynog Davies, Pentre-bach, a gyfeiriodd at waith hanfodol Tŷ Hafan yn darparu cysur, gofal a chymorth i blant â chyflyrau sy'n byrhau bywyd ac sydd hefyd yn cynnig cymorth i'w teuluoedd.



Y gynulleidfa gyda Gerald Morgan, trefnydd 'Dathlu'r Sulgwyn'

Cafodd y gynulleidfa eu swyno gan unawdau Carys Ann Davies (Pontrhydfendigaid), Sara Davies (Prengwyn) a Dafydd Jones (Ciliau Aeron), gyda Neli Jones (Pontrhydfendigaid) yn cyfeilio iddynt. Hyfryd oedd gwrando hefyd ar leisiau Côr Meibion Cwm-ann a'r Cylch, dan arweiniad Elonwy Davies, gydag Elonwy Pugh Huysmans yn cyfeilio, a Chôr Bytholwyrdd, côr cymysg Llanbed, dan arweiniad Rhiannon Lewis gyda Lois Williams yn cyfeilio. Cafwyd darlleniadau o'r Ysgrythur gan David Davies (Gwarffynnon, Silian) a Lois Williams (Cwm-ann). Braf fu croesawu Maer a Maeres Llanbed, y Cynghorydd Rhys Bebb a Mrs Shân Jones, a hwythau newydd ddechrau ar eu blwyddyn yn faer ac yn faeres y dref.



O'r chwith i'r dde: Twynog Davies (Llywydd), Shân Jones (Maeres Llanbed), Rhys Bebb Jones (Maer Llanbed) a Gerald Morgan (Trefnydd)

Bu cyfle am sgwrs a chymdeithasu yn Festri Shiloh wedi'r oedfa a mwynhau'r lluniaeth a ddarparwyd gan aelodau Capel Shiloh. Diolch yn fawr iawn i bob un gyfrannodd at arlwy a llwyddiant y noson arbennig hon ac am gefnogi elusen Tŷ Hafan. Am fwy o wybodaeth am Hosbis Plant Tŷ Hafan, ewch i'w gwefan: https://www.tyhafan.org/cy/hafan-ty-hafan/

*Rhys Bebb Jones*

# Cystadleuaeth Bêl-droed Cwpan CIC Gofalaeth Bro Nant Conwy

Nos Fawrth, 27 Mehefin, cynhaliwyd Cystadleuaeth Bêl-droed Cwpan CIC Gofalaeth Bro Nant Conwy. Cafwyd cynrychiolaeth o bob clwb CIC (Clwb Ieuenctid Cristnogol) o fewn yr ofalaeth, sef Clybiau Bro Caerhun, Bro Cernyw, Ardal Ysbyty Ifan ac Ardal Llanrwst.

Diolch i'r holl blant ac ieuenctid a'u rhieni am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd. Cafwyd noson hwyliog a chystadleuol iawn!

Roedd y gemau'n agos, ond tîm Ardal Ysbyty Ifan ddaeth i'r brig yn yr adran iau. Da iawn chi!

Yn yr adran hŷn gêm gyfartal oedd hi yn y ffeinal rhwng tîm Bro Caerhun a thîm cymysg Ardal Ysbyty Ifan a Bro Cernyw. Felly, bu rhaid cael ciciau o'r smotyn. Llongyfarchiadau i'r tîm a ddaeth i'r brig, sef Tîm Clwb CIC Bro Caerhun. Da iawn i bawb a gymerodd ran.



Timau Clybiau CIC Bach




Enillwyr Cwpan CIC Bach – Clwb Ardal Ysbyty Ifan



Clwb Ardal Ysbyty Ifan



Clwb Ardal Llanrwst




Tim cymysg Clwb Ardal Ysbyty Ifan a Bro Cernyw



Enillwyr Cwpan CIC – Clwb Bro Caerhun

# Teyrnged i John Rice Rowlands



Gyda marw'r Parchg John Rice Rowlands, daeth i ben gyfnod arbennig yn hanes crefydd ym Môn a hanes enwad y Bedyddwyr yn neilltuol. Â'i wreiddiau yn ddwfn yng nghwmwd Talybolion yng ngogledd-orllewin yr ynys, ar wahân i'w gyfnod yn y coleg, ni symudodd ymhell o'i gynefin o ran ei weinidogaeth, a bu'n byw am y rhan fwyaf o'i oes yn y tŷ lle y'i ganed. Llwyddodd, yr un pryd, i wneud cyfraniad cenedlaethol ac roedd ei enw yn hysbys i lawer o ganol pumdegau'r ganrif o'r blaen.

Fe'i ganed yn unig blentyn i'r Henadur Richard Bulkeley Rowlands a Jane Ellen, née Owen, ei wraig, ym Mryn Aber, Llanfachraeth, Ynys Môn, ar 25 Gorffennaf 1930. Roedd ei daid, Rice Rowlands, yn ddisgynnydd i Rowland Tyler, y Gorwil, Llanddeusant, un o ffyddloniaid Christmas Evans, arweinydd Bedyddwyr Môn ar droad y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Deacon ym Mhont-yr-arw, eglwys y Bedyddwyr, Llanfachraeth, oedd Rice Rowlands, ac yn drysorydd Cymanfa Bedyddwyr y sir. Fel ei chwe brawd, roedd yn felinydd, yn berchennog ar Felin Machraeth, tra bod pob un o'r brodyr, yn ogystal â dilyn gyrfa fel melinyddion, yn dal swyddi yn yr eglwysi cylchynol: Llanddeusant; Soar, Llanfaethlu; a Rhydwyn. Aelodau ym Mhont-yr-arw, Llanfachraeth, oedd Richard Bulkeley a Jane, a dyna lle y bedyddiwyd John yn ei arddegau. Un o Fetws Garmon oedd Ann Owen, nain John, ac yn Fethodist, ond a droes yn Fedyddwraig yn Llundain ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac ymaelodi yn eglwys Westborne Park o dan y Dr John Clifford, yr Ymneilltuwr blaengar enwog. Trwy ei fam, felly, yr etifeddodd John radicalieth gymdeithasol ei nain, a thrwy Richard Bulkeley ymlyniad ei dadau at Fedyddiaeth Môn. Ymhyfrydodd yn ei dras a bu'n deyrngar i'w etifeddiaeth ar hyd ei oes.

Yn dilyn addysg uwchradd yn Ysgol Sir Caergybi, aeth i'r brifysgol ym Mangor gan raddio gydag anrhydedd yn y Gymraeg yn 1951 cyn hyfforddi am y weinidogaeth yng Ngholeg y Bedyddwyr. Chwaraeodd ran flaenllaw yn y bywyd cymdeithasol, gan wasanaethu fel llywydd y Cymric, sef y Gymdeithas Gymraeg, llywydd Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr ac ysgrifennydd Cyngor y Myfyrwyr. Cafodd ragoriaeth yn Hanes yr Eglwys yng ngradd y BD yn 1954, ac enillodd ysgoloriaeth i Goleg Mansfield, Rhydychen, i wneud gwaith ymchwil ar y Piwritaniaid o dan gyfarwyddyd y Canon Claude Jenkins, yr Athro Brenhinol mewn Hanes Eglwysig. Wedi dwy flynedd yn Rhydychen, dychwelodd i Fôn a'i ordeinio yng Ngorffennaf 1956 yn weinidog ar ddwy eglwys fechan, sef Moreia, y Gaerwen, a Phencarneddi yn y Star. Yn ôl hanesydd Moreia: 'Felly y dechreuodd priodas a barhaodd yn ddedwydd iawn am dair blynedd ar ddeg. Ni fu gweinidog uwch ei barch gan bobl ei ofal', a gwir oedd y gair. Yng Ngorffennaf 1969 symudodd i Gaergybi i fugeilio Bethel, eglwys Fedyddiedig fwyaf yr ynys, cyn ei benodi yn 1984 yn bennaeth y Coleg Gwyn, sef Coleg y Bedyddwyr, Bangor, ac yn ddarlithydd yng Nghyfadran Diwinyddiaeth y Brifysgol gyda chyfrifoldeb arbennig am ddysgu Hanes yr Eglwys. Ymddiswyddodd yn 1995 a threulio blynyddoedd ei ymddeoliad ym Mryn Aber, y cartref teuluol, lle bu'n byw ers dyddiau gweinidogaeth y Gaerwen. Bu farw mewn cartref gofal ym Modedern ar 25 Mehefin 2023, bron wedi cyrraedd ei 94 oed. Roedd yn ddibriod.

Ar hyd y blynyddoedd cyfrannodd yn genedlaethol yn ogystal ag yn lleol. Cyhoeddodd ar themâu hanesyddol o Ail-Fedyddwyr radical yr ail ganrif ar bymtheg at ffigyrau amlwg yn ei draddodiad ei hun, yn bennaf yn *Seren Gomer* a *Thrafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr*; ymddangosodd y gyfrol *Y Coleg Gwyn: Canrif ym Mangor, 1892–1992* yn 1992. Bu'n llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru yn 1989 a'i anerchiad 'Trosglwyddo'r Neges' a draddododd o bulpud Bethel, Caergybi, yn cyfleu ei ymlyniad diysgog wrth y Gristnogaeth feiblaidd glasurol. Pregethodd yn aml ym mhrif wyliau ei enwad, a bu'n gadeirydd cydbwyllgor *Y Beibl Cymraeg Newydd*.

Perchid John Rice Rowlands ymhobman am ei gymeriad glân, ei natur gyfeillgar a diymhongar, ei ledneisrwydd a'i argyhoeddiadau cadarn, disyfl. Yn ôl cymydog iddo, y Parchg Emlyn Richards: 'Bu ei gyfraniad yn neilltuol i Fedyddwyr Môn a Chymru fel bonheddwr Cristnogol. Bu'n weinidog da i Iesu Grist, yn bregethwr coeth ac yn brifathro cydwybodol a gweithgar i goleg ei enwad.' Nid yn aml y deuid o hyd i bersonoliaeth mor loyw â hon. Mawr fydd yr hiraeth ar ei ôl.

*D. Densil Morgan*

# Newyddion o Gapel Bethlehem, Porth-y-rhyd

Ar 2 Gorffennaf cyflwynwyd anrheg i drysorydd Capel Bethlehem, sef David Morgan, Golwg y Coed (Cwmpêr gynt), gan ein Gweinidog, y Parchedig Aled Maskell, fel arwydd o werthfawrogiad a diolch am ddeugain mlynedd o wasanaeth fel trysorydd y capel. Cyflwynwyd darlun iddo o Gapel Bethlehem gan yr artist Llinos Roberts, ynghyd â blodau i Mair, ei wraig. Yn y llun mae David a Mair, eu merch Angharad, a'r Parchedig Aled Maskell.

*Non Walters*
*Ysgrifennydd Capel Bethlehem*



ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 312 Chwerthin

### Darllen: Genesis 21:1–7

**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 137)**

Wrth inni fynd drwy'r bennod yma rwyf am dynnu sylw at ddau ystyr i chwerthin yn y testun gwreiddiol. Mae'r gair yn gyffredin yn yr adnodau hyn, a'r wythnos nesaf byddwn yn edrych ar y chwerthin sy'n cael ei ddisgrifio yn adnod 9. Er y cyfieithiad yn y Beibl Cymraeg Newydd, mae'r ystyr yn debycach i gyfieithiad William Morgan a Beibl.net: 'Gwelodd Sara y mab gafodd Hagar yr Eifftes i Abraham yn gwneud hwyl am ben ei mab hi, Isaac', ac ym Meibl William Morgan: 'gwatwar'. Rwyf am wneud hyn gan fod y ddau ystyr yn cyfeirio at ddau brofiad sy'n gyffredin i'r Cristion. Yn gyntaf, mae'r Cristion yn berson sy'n medru chwerthin yn yr ystyr orau, y chwerthin sy'n dod, fel yn hanes Sarah, o weld daioni rhyfeddol Duw tuag atom. Yn ail, mae'n cyfeirio at y gwneud hwyl fydd Cristnogion yn gorfod ei wynebu yn eu cerddediad o ddydd i ddydd.

O ddod at Iesu, rydym yn dod at y gwynfyd pennaf yn llythrennol. Droeon ar ddechrau'r epistolau, mae Paul yn torri allan i addoli a chanmol mewn ffordd sy'n fynegiant o'r llawenydd mae wedi ei ddarganfod yn y newyddion da. Yn Effesiaid 1:3 mae'n dweud: 'Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Y mae wedi'n bendithio ni yng Nghrist â phob bendith ysbrydol yn y nefolion leoedd.'

Beth felly sy'n gyffredin am y chwerthin yma yn Genesis a chwerthiniad y Cristion? Yn ei hanfod, mae'n syndod, yn rhyfeddod, yn orfoledd am yr hyn y mae Duw wedi ei gyflawni. Mae'r adnodau yma yn Genesis 21 yn ein gadael heb amheuaeth o gwbl mai gwaith gwyrthiol Duw oedd y rhodd yma i Abraham a Sarah. Pan mae Mair yn holi'r angel yn Luc 1 sut yr oedd am eni plentyn a hithau'n wyryf, mae'n clywed yr ateb rhyfeddol, 'oherwydd ni bydd dim yn amhosibl gyda Duw' (Luc 1:37). Cawn yr un neges gan yr angel i Abraham yn Genesis 18:14, 'A oes dim yn rhy anodd i'r ARGLWYDD?' Yno mae Sarah yn chwerthin o glywed yr addewid, a phan mae'r mab yn cael ei eni, mae'n cael yr enw Isaac; ac ystyr y gair yn llythrennol yw chwerthin. Rwyf wedi meddwl droeon am yr oedi yma yn yr addewid i Abraham a Sarah, ac eto'n sylweddoli y bydd yr hyn a ddysgwn yn Genesis yn llinyn drwy'r Beibl, ac yn arbennig felly yn y Testament Newydd.

Mae'r digwyddiad yma'n rhoi clec i'r syniad fod Cristnogaeth yn rhywbeth y mae pobl yn ei wneud – '*man-made*'! Roedd Abraham dros gant a Sarah hithau yn ei nawdegau: "Pwy fuasai wedi dweud wrth Abraham y rhoddai Sara sugn i blant? Eto mi enais fab iddo yn ei henaint" (Genesis 21:7). Ac eto, 'Beichiogodd Sara a geni mab i Abraham yn ei henaint, ar yr union adeg a ddywedodd Duw wrtho' (21:2). I'r gwrthwyneb, 'Felly, os yw rhywun yng Nghrist, y mae'n greadigaeth newydd; aeth yr hen heibio, y mae'r newydd yma. Ond gwaith Duw yw'r cyfan' (2 Corinthiaid 5:17–18). Yr un pryd, mae'n sicrhau fod Abraham, Sarah a ninnau'n medru bod yn siŵr y bydd geiriau Duw, ei addewidion ef, yn cael eu sylweddoli: 'Trwy ffydd — a Sara hithau yn ddiffrwyth — y cafodd nerth i genhedlu plentyn, er cymaint ei oedran, am iddo gyfrif yn ffyddlon yr hwn oedd wedi addo' (Hebreaid 11:11). Daw'r cyfan o ganlyniad i ras Duw, a ninnau'n ymateb drwy ffydd i'r gras hwnnw.

Ond mae'r hanes yn ein dysgu hefyd fod Abraham wedi ymateb yn ufudd, rhywbeth yr oeddem yn gweld ei eisiau yn yr hanes yr wythnos diwethaf, a rhywbeth y byddwn yn ei weld yn cael ei brofi ym mhennod 22. Yn Genesis 17:19, 21, mae Duw nid yn unig yn setlo'r addewid, ond yn rhoi enw i'r plentyn: 'bydd dy wraig Sara yn geni iti fab, a gelwi ef Isaac'. Yn yr adran yma cawn Abraham yn ufuddhau o ran enwi'r plentyn ac o ran y gorchymyn i enwaedu, gan arwyddo'i hyder yn y cyfamod grasol yr oedd Duw yn ei wneud ag ef, ac â phobl Dduw ym mhob cenhedlaeth, pobl dirifedi: 'Rhoes Abraham i'r mab a anwyd iddo o Sara yr enw Isaac; ac enwaedodd Abraham ei fab Isaac yn wyth diwrnod oed, fel yr oedd Duw wedi gorchymyn iddo' (adn. 3–4). Bydd y rhai ohonoch sy'n cofio yn galw i gof fod y geiriau'n cael eu hailadrodd, bron, yn yr hanes am ufudd-dod Joseff a Mair: 'Pan ddaeth yr amser i enwaedu arno ymhen wyth diwrnod, galwyd ef Iesu, yr enw a roddwyd iddo gan yr angel cyn i'w fam feichiogi arno' (Luc 2:21).

Teimlaf fod y ddwy adnod gyntaf yn grynhoad o hyder y Cristion wrth lawenhau yng ngwaith Duw, ei ras a'i allu i wireddu ei addewid. Sylwch fod yr adnodau'n rhoi pwyslais ar yr hyn y mae Duw wedi ei ddatguddio, yr hyn y mae wedi ei ddweud: 'Ymwelodd yr ARGLWYDD â Sara yn ôl ei air, a gwnaeth iddi fel yr addawodd. Beichiogodd Sara a geni mab i Abraham yn ei henaint, ar yr union adeg a ddywedodd Duw wrtho' (1–2). Mae'r cymalau 'yn ôl ei air', 'fel yr addawodd', ac 'a ddywedodd' (yn Saesneg – *said, promised, spoken*) yn ein hatgoffa ninnau nad yr hyn a ddywedwn ni, na'r hyn y mae eraill yn ei ddweud yw sail ein hyder; mae sail ein hyder yng ngair Duw.

1. Ystyriwch yr adnodau hyn o Salm 126:1–2: 'Pan adferodd yr ARGLWYDD lwyddiant Seion, yr oeddem fel rhai wedi cael iachâd; yr oedd ein genau yn llawn chwerthin a'n tafodau yn bloeddio canu. Yna fe ddywedid ymysg y cenhedloedd, "Gwnaeth yr ARGLWYDD bethau mawr iddynt hwy."' I ba raddau y mae chwerthin a bloeddio canu yn wir yn eich bywyd Cristnogol?
2. Wrth edrych yn ôl ar eich bywyd, pa enghreifftiau fedrwch chi eu rhoi sy'n dangos mai 'gwaith Duw yw'r cyfan'?
3. Mae'n siŵr eich bod chi, fel finnau, yn darllen llawer o lenyddiaeth dda. Beth mae'r adnodau cyntaf yn Genesis 21 yn ei ddweud wrthym am y gwerth ddylem ei roi ar ddarllen y Beibl?

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 16 Gorffennaf am 7.30yh**

**Uchafbwyntiau 1**

Bydd Ryland Teifi yn rhannu hanner awr o ganu bendigedig a straeon dyrchafol wrth edrych yn ôl ar rai o uchafbwyntiau'r gyfres. Ymhlith y cyfranwyr y mae'r cerddor Eilir Owen Griffiths, y gantores gospel Nia Price a'r Mwslim ifanc Mahum Umer.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 16 Gorffennaf, am 7:30yb a 4:30yp**

**Bethlehem, Gwaelod-y-garth: rhaglen 2**

Delwyn Siôn yn cyflwyno mwy o berfformiadau gan Gantorion Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Sul, 16 Gorffennaf, am 12yp**

Oedfa dan ofal Sheridan Angharad James, Tyddewi

# O'r byd a'r betws

## Pen-blwydd hapus, GIG

Prin fod unrhyw un ohonom yn cofio sefyllfaoedd lle nad oedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn bodoli gan ein bod eleni yn dathlu 75 mlynedd ers i Aneurin Bevan, fel y Gweinidog dros Iechyd yn y Llywodraeth, gyflwyno'r drefn newydd yn 1948. Bu'n batrwm o wasanaeth iechyd; bydd llu o wledydd yn ei werthfawrogi, a chlod i'r llywodraeth Llafur ar ôl yr Ail Ryfel Byd am gynnig yr adnodd arbennig hwn i wledydd Prydain. Clywsom am amgylchiadau trist trigolion Prydain cyn yr Ail Ryfel Byd, heb adnoddau meddygol a oedd yn ddi-gost ar adeg yr angen neu'r salwch. Bu'n wasanaeth clodwiw ar draws y degawdau, gan gynnig hyfforddiant i sawl disgyblaeth feddygol, yn ysgogydd ymchwil ac yn ddatblygwr systemau gofal mewn llu o feysydd ar gyfer cleifion amrywiol eu hanghenion.

Gall y mwyafrif ohonom feddwl am sefyllfaoedd o bryder am yr amser hir rhwng adnabod y symptomau a derbyn y driniaeth briodol. Bu hwn yn bwnc trafod gwleidyddol a meddygol gan amlygu'r diffyg buddsoddi yn y gwasanaeth. Talodd llawer eu cyfraniadau'n gydwybodol i'r gwasanaeth iechyd (NIC), ond pan oedd angen sylw meddygol, bu raid iddynt dalu miloedd o bunnoedd am ddatrysiad i'w cyflyrau mewn ysbytai preifat. Rhwydd hynt i'r sawl sydd â'r modd i wneud hynny, ond nid dyna oedd gweledigaeth Aneurin Bevan a'i debyg yn 1948.




Mae llawer o'n hysbytai wedi breuo hyd at fod yn anaddas i'w pwrpas, a bydd cost sylweddol i'w hadnewyddu. Mae rhai o'r triniaethau diweddaraf angen arbenigedd o ran sgiliau meddygol, y staff sy'n gweithio mewn theatrau llawfeddygol, a'r gofal dwys sydd ei angen yn dilyn unrhyw lawdriniaeth. Mae cost i ddarparu hyn hefyd, a phrin y gellir hyfforddi meddygon dros nos. Ni allwn ond rhyfeddu at y datblygiadau a gafwyd wrth sganio'r corff dynol, y profion sy'n bosibl ar yr organau ac i gynnig triniaethau newydd i'r cleifion. Mae'r gwrthdaro rhwng yr undebau a'r llywodraeth yn San Steffan yn golygu cynnydd eto yng nghostau cynnal y GIG, ac nid yw'n rhyfedd fod iechyd yn bwnc cymhleth a drud i bob gwladwriaeth.

O ystyried hyn oll, wrth ddathlu pen-blwydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn 75 oed, mae angen asesu safon ac ymrwymiad pob senedd yng ngwledydd Prydain i'r gwasanaeth. Gwae ni rhag gadael i'r seneddau hyn gynnig gwasanaeth eilradd ac annigonol i'r holl ddinasyddion. Gwae ni hefyd rhag cydnabod y staff yn ddigonol, fel bod y cyflogau ar bob lefel yn unol â chostau byw'r cyfnod, yn ogystal â chwilio am bob cyfle i ddarparu'r gofal gorau i bawb ar awr yr angen. Nid pêl i'w chicio ar draws cae chwarae yw'r trysor hwn ond elfen bwysig o'n hetifeddiaeth i'w hestyn i blant ein plant. Diolchwn am weledigaeth ac ymroddiad y gorffennol, ac ymrown i gydberchnogi, i barchu ac i ddathlu'r gofal meddygol mewn ysbytai ac yn y cymunedau. Ein her yw hawlio'r gwasanaeth gorau ar gyfer yr yfory.

*Denzil John*

# Hen Feiblau

'Be dach chi'n neud efo hen Feiblau?' Mi glywais fwy nag un o'm ffrindiau'n gofyn y cwestiwn hwn dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'n gwestiwn y byddaf finnau'n ei ofyn i mi fy hun yn aml. Mae'n anodd gen i daflu 'run llyfr. Prawf o hynny yw'r ffaith fod cyfrol fel *The Eddie Stobart Story* (a gipiwyd o focs ailgylchu tad Falmai yn Llannefydd flynyddoedd yn ôl) yma o hyd! Ond mae meddwl am daflu Beibl yn waeth fyth. Mae yma ddegau o Feiblau: rhai wedi eu prynu, rhai wedi eu hetifeddu, rhai wedi eu cael yn anrhegion, a rhai wedi eu cael wrth i bobl eraill glirio tai. Beiblau mawr a bach, print bras a phrint mân, glân a llychlyd, taclus a blêr; ambell un Saesneg, ond Cymraeg gan fwyaf, yr hen gyfieithiad a'r newydd. Rhai wedi eu rhwygo, rhai ag oglau tamp arnyn nhw, a rhai â phrint mor fân fel ei bod yn anodd eu darllen. Ac ar ben hynny hefyd, bocs neu ddau o hen Feiblau plant treuliedig.

Ia, be dach chi'n neud efo hen Feiblau? Mae'n anodd cael gwared hyd yn oed â'r rhai sydd wedi torri a'r rhai â gafael tamp arnyn nhw. Mae'n anodd peidio â theimlo'n euog am daflu 'run Beibl, beth bynnag ei gyflwr. Bydd rhai'n claddu hen Feiblau yn hytrach na'u taflu i fin sbwriel neu focs ailgylchu.

Roedd cylchlythyr Cymdeithas y Beibl yn ddiweddar yn sôn am ŵr o'r enw Jay Diaz yn hedfan i Romania gyda phedwar cês llawn o Feiblau Wcreineg a Rwsieg. Ei fwriad oedd anfon y 200 copi o'r Beibl ynghyd â 150 copi o lyfryn Beiblaidd oddi yno i Wcráin er mwyn rhoi Gair Duw a'i oleuni yn nwylo rhai o Gristnogion y wlad yng nghanol eu gofid presennol. Un enghraifft yn unig yw hyn o'r modd y mae pobl yn ymdrechu i gyflwyno Beiblau i gredinwyr neu anghredinwyr ar draws y byd.

A dyna sylweddoli fod yna gwestiwn pwysicach o lawer i'w ofyn: 'Be dach chi'n neud efo Beiblau newydd?' Rheitiach na meddwl beth i'w wneud â hen Feiblau blêr a threuliedig yw chwilio am ffyrdd o roi Beiblau cymen yn nwylo pobl a phlant o bob oed yma yng Nghymru a thu hwnt. Gall hynny fod yn Feiblau newydd; ac mae yna ddigonedd o Feiblau, o wahanol gyfieithiadau a diwyg y medrwn eu rhoi i deulu a ffrindiau a dieithriaid. Ond gall hefyd fod yn hen Feiblau sy'n llechu yn ein cartrefi a'n capeli.

Yr ateb syml i'r cwestiwn 'Be dach chi'n neud efo Beiblau?' ydi 'Eu rhoi i rywun arall'. Onid gofyn ddylwn i am bob un o'r Beiblau sydd gen i, 'Fedraf fi roi hwn i rywun i'w ddarllen?' Ac os na fedraf, am ei fod yn rhy flêr, yn rhy lychlyd neu'n rhy damp, gellir cael gwared ag o gyda chydwybod dawel. Does ots mewn gwirionedd be wnewch chi â Beibl na fedr neb ei agor na'i ddarllen. Mwy buddiol na chadw Beiblau sydd wedi hen weld eu dyddiau gorau fyddai gofalu bod Beiblau glân a darllenadwy, hen a newydd, yn cael eu rhoi yn nwylo ein plant a'n pobl. Ia, be wna i efo'r holl Feiblau yma?

*John Pritchard*
*(O Gronyn, taflen wythnosol*
*Gofalaeth Fro'r Llechen Las*
*18 Mehefin 2023)*

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Genedigaeth fraint

### Emyn 302 'Dyma gyfarfod'

### Darllen – Salm 119:105–12

### Gweddi

Arglwydd, mor rhyfedd yw dy ffyrdd anfeidrol i fodau meidrol fel ni. Mor ddibynadwy yw dy addewidion, mor sicr dy gyfamod, mor ddi-droi'n-ôl yn dy fwriad grasol i fendithio'r byd drwy Iesu Grist, dy Fab. Tywallt arnom eto o ddoniau dy Ysbryd fel y medrwn dy wasanaethu gan ufuddhau i'th air, byw mewn modd sy'n deilwng o'th bobl, a rhodio mewn ffydd hyd yn oed pan fydd maglau neu rwystrau ar ein llwybrau. Ti a'n ceraist; ti a'n prynaist. Offrymwn i ti ein moliant – dyma yw'n hymateb rhesymol. Caniatâ i'r oedfa fod yn 'gyfarfod hyfryd iawn' mewn gwirionedd. Amen.

### Darllen – Genesis 25:19–34

### Emyn 207 'Cyfamod hedd'

### Myfyrdod

### Gwythïen

Dywedwyd wrthyf gan hen löwr o ardal Cross Hands, Sir Gaerfyrddin, am fodolaeth un wythïen drwchus o lo o'r enw 'y Stanllyd'. Gwythïen ydoedd tua wyth neu naw troedfedd o uchder. Yn ôl ei dystiolaeth, hon oedd yr wythïen oedd yn ymestyn ar draws ardal glo caled de Cymru – er bod iddi ddyfnderoedd gwahanol ac enwau gwahanol mewn pyllau ac ardaloedd gwahanol.

Gwythïen oedd ynghudd ydoedd, ac eto roedd yn werth cloddio cannoedd o droedfeddi er mwyn ei chanfod a'i gweithio.

Un o'r gwythiennau dyfnaf sy'n rhedeg drwy'r Beibl i gyd yw fod hanes yn tystio i ffyddlondeb Duw i'w gyfamod, i'w bobl, ac i'w fwriad i fendithio'r byd drwy 'had Abraham', Iesu Grist.

### Heriol

Chwithig i fyd mewn Oes ôl-Ymoleuol, wyddonol yw syniad o'r fath. 'Siawns bod pobl sydd wedi eu "goleuo" wedi rhoi heibio syniadau o'r fath,' meddir.

I bobl sy'n credu yn rheolaeth 'ffawd' amhersonol, tramgwydd yw sôn am ryw fod Dwyfol, Tad Nefol sy'n 'trefnu lluoedd nef', yn cyflawni'r 'cwbwl oll / o'i gyngor ef'!

I bobl sy'n pwyso ar ddeddf Karma fel deddf naturiol sy'n rheoli, yn hyrwyddo neu'n cosbi gweithredoedd drwg, naill ai yn yr oes hon neu mewn bywyd sydd eto i ddod, dieithr iawn fyddai credu yn rhyddid sofran yr Arglwydd Dduw i ethol ac i weithredu yn y ffyrdd mwyaf croes i'r hyn y byddai doethineb dynol yn ei ddisgwyl.

### Bydolwg y Beibl

Ac eto, mae bydolwg y Beibl yn mynnu bod Crëwr a lluniwr bydoedd yn dwyn ei amcanion daionus i ben, o genhedlaeth i genhedlaeth, heb wyro, heb ildio, heb ei rwystro gan amgylchiadau, hyd nes y bydd ei amcan i gyflawni ei holl amcanion daionus drwy Iesu Grist, er mwyn Iesu Grist ac yn Iesu Grist, ar ben (Colosiaid 1:15–21).

### Un peth yw addo. Peth arall yw cyflawni'r addewid!

Rhoddwyd i Abraham addewid y byddai ei ddisgynyddion mor niferus â'r sêr. Ond, ac yntau bron yn ganmlwydd oed, roedd pob gobaith dynol am sicrhau hyd yn oed un disgynnydd iddo ef a Sara yn ymddangos yn amhosib. Fodd bynnag, nid oedd yr hyn a ymddangosai'n amhosib i bobl y tu hwnt i allu'r Arglwydd!

O Abraham y ganwyd Ismael o drefniadaeth naturiol, a ganwyd Isaac fel y mab a addawyd, y mab oedd yn flaenffrwyth cyflawniad cyfamod yr Arglwydd.

### *Déjà vu*

Yn awr, ymddangosai fel petai hanes yn cael ei ailadrodd wrth i Isaac a Rebeca fethu cenhedlu etifedd. Unwaith eto, mewn ateb i weddi, trwy ymyrraeth ddwyfol, sicrhawyd bod cyfamod yr Arglwydd gydag Abraham yn sefyll. Byddai ei had adeg cyflawni'r addewidion yn fendith i holl dylwythau'r ddaear.

### Dwy genedl

Yn awr, i Isaac a Rebeca ganwyd dwy genedl wahanol oedd yn rhannu'r un gwaed, yn perthyn yn agos ar ryw olwg; ond o'r ddau fab tarddodd dwy linach wahanol: Esau a Jacob, Edom ac Israel.

Rhagflas o'r eiddigedd a'r gwrthdaro rhwng y brodyr a rhwng dwy genedl oedd y modd yr 'aflonyddodd y plant ar ei gilydd yn ei chroth' (25:22).

Er ei gryfder corfforol a'i wallt coch, nid i Esau y perthynai'r addewid ond i Jacob, y corgi o ŵr, a afaelodd yn sawdl ei frawd! Hyd yn oed cyn eu geni deallodd Rebeca, mewn modd dirgel, y câi ei phlentyn ieuengaf, Jacob, y flaenoriaeth dros ei mab cyntaf-anedig, Esau. Byddai llinach y Meseia ymhen y rhawd yn cael ei holrhain at 'Jacob, fab Isaac, fab Abraham' (Mathew 1:2).

### Cynnil

Mor gynnil yw'r modd yr adroddir yr hanes. O'r gwrthdaro yng nghroth Rebeca neidia'r hanes hyd at eu genedigaeth. Disgrifir Esau a Jacob, wedi iddynt dyfu, fel dau oedd yn meddu ar gymeriadau gwahanol. Deisyfai Esau fywyd yn yr awyr agored tra oedd Jacob yn dyheu am fywyd tawel yn agos i'w babell. Gyda hop, sgip a naid, mae'r awdur yn neidio dros y blynyddoedd i adrodd yr hanes am Esau yn gwerthu i'w frawd Jacob ei enedigaeth fraint, sef ei freintiau fel y cyntaf-anedig. Am ddysglaid o gawl coch, ac yntau'n newynu, gwerthodd Esau y cyfan. 'Fel hyn y diystyrodd Esau ei enedigaeth-fraint' yw geiriau condemniol awdur Genesis. Dibris ganddo oedd yr hyn a ddeuai iddo drwy ewyllys ei dad ymhen y rhawd. Blasu, bodloni chwant heb oedi, heb bwyllo, heb werthfawrogi beth oedd yn y fantol oedd cymeriad Esau.

### Dewis grasol

Ond nid yw Jacob yn dod o'r digwyddiad mewn goleuni da chwaith. Yn yr hanes cyflwynir ni i Jacob fel hoff fab Rebeca (adn. 28) Fel yn hanes Sara, cyflwynir ef fel mab i wraig oedd yn methu cael plant. Fel Isaac, neu Samuel, neu Elisabeth yn y Testament Newydd, deallwn fod a wnelo *trugaredd Duw* â'i enedigaeth. Deallwn hefyd fod *rhywbeth annisgwyl* am ei le ym mwriadau Duw. Onid ail fab Abraham oedd Isaac, ac onid mab dinod Jesse oedd Dafydd? Ac eto, roedd yr Arglwydd yn rhoi heibio '[d]disgwyliadau arferol' er mwyn cyflawni ei amcanion ei hun drwy'r meibion 'dinod' hyn.

O weld parodrwydd Jacob i fanteisio ar angen ei frawd, y modd y twyllodd Isaac yn ddiweddarach er mwyn ennill ei fendith, a'r modd y bu'n ymwneud â Laban, cawn ar ddeall nad ar sail unrhyw rinwedd yn Jacob y cafodd ei ddewis gan yr Arglwydd. Mae'n wir y trodd 'Jacob' y twyllwr i fod yn 'Israel', yn un a ymgodymodd â'r Arglwydd. Nid yn rhinwedd Jacob y mae canfod yr ateb i'w ddewis gan yr Arglwydd. Gras, trugaredd, dewis sofran, rhydd yr Arglwydd oedd sicrhau bod y cyfamod a wnaed ag Abraham yn cael ei gyflawni! Arglwydd dibynadwy ydyw sy'n ffyddlon i'w Air.

### Emyn 66 'Trwy ddirgel ffyrdd'

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru